# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>19 MEHEFIN, 2024 am 2.00 o'r gloch yp | WEDNESDAY,<br>19 JUNE, 2024 at 2.00 pm |
| CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | HYBRID MEETING – IN THE COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**
**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

2 **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w gadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2024.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024 (Ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd)

4 **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG : 2023/2024</u>** (Tudalennau 7 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro.

5 **<u>CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG: ADRODDIAD CYNNYDD : 2023/2024</u>** (Tudalennau 33 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

6 **<u>ENWEBIAD PWYLLGOR - PANEL SGRIWTINI CYLLID</u>** (Tudalennau 41 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

7 **<u>BLAEN RAGLEN WAITH - 2024/2025</u>** (Tudalennau 45 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai;<br>Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid;<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Darlledu Gwasanaethau Pwyllgor (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr John Ifan Jones, Gwilym O Jones, Euryn Morris.<br><br>Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd) a Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru)<br><br>Cynghorydd Llinos Medi – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol.<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff;<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ST) (ar gyfer eitem 4 yn unig) |

---

Yn absenoldeb yr Is-gadeirydd, cafodd Cynghorydd Margaret M Roberts ei phenodi yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024, yn gywir.

## 4 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr, oedd yn amlinellu'r adolygiad ar drefniadau darparu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a monitro cynnydd y Bwrdd wrth weithredu Cynllun Llesiant 2023-2028, i'w ystyried a'i graffu gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Deddf hefyd wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, gydag aelodau'n amrywio o gyrff cyhoeddus i'r trydydd sector. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar y cyd fel sefydliad partner er mwyn sicrhau bod cynlluniau strategol yn cyd-fynd gydag amcanion llesiant lleol, ac yn cynnig cefnogaeth i'w cyflawni.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod diwylliant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cryfhau dros y 12 mis diwethaf ar ôl penodi Cadeirydd newydd, Mr Aled Jones-Griffiths. Roedd hefyd eisiau llongyfarch Mr Jones-Griffith ar gael ei benodi fel Prif Weithredwr newydd Grŵp Llandrillo Menai. Dywedodd bod pwysau ar drigolion cymunedau lleol oherwydd yr argyfwng costau byw, sydd wedi arwain at dlodi a phroblemau llesiant. Un o brif egwyddorion y Cyngor yw cydweithio gyda sefydliadau partner a'r trydydd sector, yn enwedig o ganlyniad i lai o gyllid a thoriadau ar y rheng flaen.

Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y bydd Cynllun Darparu'r Bwrdd yn destun adolygiad parhaus. Oherwydd y llwyddiant blaenorol, a ffocws parhaol ar Is-grŵp yr Iaith Gymraeg, cytunodd y Bwrdd i barhau yn ei ffurf bresennol. Mae gwaith rhanbarthol wedi'i roi ar waith yn ddiweddar mewn perthynas â recriwtio yn y sector cyhoeddus, ble mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swyddi gwahanol. Eglurodd, yn dilyn asesiad academaidd annibynnol ar effeithiolrwydd yr Is-grwpiau, penderfynwyd parhau gyda'r argymhelliad i sefydlu mwy o Grwpiau Tasg a Gorffen penodol, gweithredol ar gyfer bob elfen o waith y Bwrdd.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y Cynllun Llesiant sydd ar waith, ac i ba raddau mae'r trefniadau presennol yn cefnogi'r ddarpariaeth, a pha gyfleoedd, heriau a risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd wedi datblygu er mwyn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant, ac mae wedi aeddfedu gyda sefydliadau partner wrth rannu arfer da a gwybodaeth. Cyfeiriodd at lwyddiant yr Is-grŵp Iaith Gymraeg, lle rhannwyd arferion da gyda sefydliadau partner eraill i wella'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu sefydliad. Dywedodd fod y risg sy'n wynebu'r Bwrdd yn gyffelyb i heriau'r awdurdod lleol, gan fod diffyg adnoddau i fodloni'r galw cynyddol ymhlith trigolion a chymunedau lleol am gymorth. Mae'r strwythurau sydd ar waith yn ogystal â dull gweithio wedi cryfhau gallu'r Bwrdd i ychwanegu gwerth.
- Gofynnwyd rhai cwestiynau mewn perthynas â pha werth ychwanegol sydd wedi'i amlygu drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac a yw bob partner yn cyd-fynd â threfniadau gweithio mewn partneriaeth o fewn y Bwrdd. Darparodd y Rheolwr Rhaglen enghreifftiau o waith y Bwrdd a dywedodd mai un o'r amcanion yw alinio effeithiau tlodi gyda gwaith sydd eisoes yn digwydd mewn awdurdodau lleol ac felly, sicrheir bod pobl yn derbyn y budd-daliadau maent yn gymwys ar eu cyfer. Cyfeiriodd at enghraifft arall, lle mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull mewn perthynas â Chynllun Cymru Iach. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at enghraifft o'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Goedwig yn Niwbwrch, ac effeithiau nifer yr ymwelwyr ar y gymuned leol. Cyfeiriwyd hefyd at y problemau a godwyd gan y Pwyllgor hwn mewn cyfarfod blaenorol, a hynny mewn perthynas ag ymgynghorai statudol yn peidio ag ymateb i geisiadau cynllunio yn ystod y broses ymgynghori. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y Bwrdd wedi gallu dylanwadu ar sefydliadau partner i ymateb i geisiadau cynllunio fel ymgynghorai statudol. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod y Bwrdd wedi dylanwadu ar y sefydliadau partner, mae hefyd yn fuddiol fod sefydliadau partner y Bwrdd yn gallu cefnogi'r awdurdodau lleol o ran yr addasiadau arfaethedig sydd eu hangen mewn polisiau cynllunio cenedlaethol.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn a godwyd mewn perthynas ag a yw'r holl sefydliadau partner yn cyd-fynd â'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth o fewn y Bwrdd, dywedodd y Prif Weithredwr fod cynrychiolaeth gan bob sefydliad partner wedi cryfhau, a'i fod yn gyson. Cyfeiriodd at y rhaglen Byw'n Iach/Pwysau Iach, a nododd fod lefelau uchel o ordewdra ymhlith pobl ifanc ar Ynys Môn wedi'u hadnabod. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd i fynd i'r afael a gordewdra yn bwysig, oherwydd ni all awdurdod lleol fynd i'r afael â'r broblem ar ei ben ei hun. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch o ble ddaeth y data sydd wedi adnabod y lefelau gordewdra ymhlith pob ifanc ar yr Ynys. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y data wedi'i rannu gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan Iechyd y Cyhoedd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae gwybodaeth fanwl hefyd wedi'i rhannu mewn perthynas ag ardaloedd penodol mewn cymunedau lleol lle mae gordewdra wedi'i adnabod ar Ynys Môn. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cyswllt pellach yn digwydd gydag Iechyd y Cyhoedd Cymru er mwyn casglu'r data mewn perthynas â'r ardaloedd lle mae gordewdra wedi'i adnabod, a bydd yn cael ei rannu gyda'r Arweinydd a'r Aelodau Portffolio perthnasol ynghyd ag Aelodau Etholedig eraill.
- Dywedwyd fod y Cyngor a CAB Ynys Môn wedi derbyn gwerth £250k o gyllid gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Gofynnwyd sut fydd y Cyngor yn osgoi dyblygu'r

gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i fynd i'r afael a thlodi, a sut mae amcan tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-fynd â'r ffrwd gwaith hwn. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y cyfle i ychwanegu gwerth, mewn perthynas â'r argyfwng costau byw, yn fwy oherwydd bod sefydliadau partner ynghlwm â'r Bwrdd a gan fod y Grŵp Tasg a Gorffen yn ymdrin â thlodi, ac mae hyn yn atal dyblygu gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

- Gofynnwyd a fydd yr argyfwng costau byw yn dylanwadu ar allu'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion mewn perthynas â thlodi. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen nad oes gan y Bwrdd unrhyw adnoddau ariannol, ond gobeithir, drwy rannu arferion da a chydweithio, y gellir cefnogi'r heriau mae cymunedau yn eu hwynebu oherwydd yr argyfwng costau byw. Dywedodd y Prif Weithredwr fod geiriad y nod Llesiant strategol yn bwysig gan fod y Bwrdd yn gweithio gyda sefydliadau partner i fynd i'r afael â'r effeithiau ar gymunedau oherwydd tlodi a'r argyfwng costau byw. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai nad oes modd i'r Cyngor fynd i'r afael â thlodi ar ei ben ei hun, ond fod gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau gwahanol o fewn y Bwrdd yn hwyluso'r gwaith o rannu arferion da a thargedu ardaloedd sy'n wynebu tlodi.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran gweithredu Cynllun Llesiant 2023-2028.**

**CAM: fel y nodwyd uchod.**

**5 BLAEN RHAGLEN WAITH 2024/2025**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn gosod Blaen Rhaglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

**PENDERFYWNYD cytuno gyda'r fersiwn bresennol o'r blaen rhaglen waith ar gyfer 2024/2025.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Paul Ellis, Gwilym O Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans a John I Jones |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 19 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad blynyddol y Gymraeg 2023-24 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cynnig yr adroddiad blynyddol i graffu arno cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig i'w gyhoeddi |
| **Cadeirydd sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) portffolio:** | Cynghorydd Dafydd Roberts |
| **Pennaeth gwasanaeth:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Rhif ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752520<br>FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i bob aelod etholedig |

## 1. Argymhelliad

Gwahoddir y Pwyllgor i graffu a gwneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Gymraeg 2023-24 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio i'w gyhoeddi.

## 2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau corfforaethol eraill

- Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn adnabod yr iaith Gymraeg fel amcan strategol ar gyfer tymor presennol y Cyngor. Mae'n cynnwys ymrwymiadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon ac i ddatblygu defnydd o'r iaith yn ein gweinyddiaeth.
- Un o feysydd blaenoriaeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26 yw y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith.
- Cymeradwyodd y Cyngor llawn ein polisi iaith Gymraeg ar 12 Mai 2016. Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio sut cafodd y polisi ei weithredu yn ystod 2023-24.

## 3. Egwyddorion fel canllaw ar gyfer sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu ar y pwnc:**

**3.1 Ffocws ar y cwsmer/dinesydd**
Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2 Ffocws ar werth**
Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd

**3.3 Ffocws ar risg**
Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4 Ffocws ar berfformiad ac ansawdd**
Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd

**3.5 Ffocws ar lesiant**

Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**3.6 Ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg**

Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**4. Cwestiynau sgriwtini allweddol**

i. Pa effaith mae gwneud y Gymraeg yn amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor yn ei gael ar statws yr iaith o fewn y Cyngor?

ii. Beth yw'r rheswm am y cynnydd yn nifer y swyddogion sy'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg?

iii. Pa wybodaeth arall fyddai'n ychwanegu gwerth at yr Adroddiad Blynyddol?

**5. Cefndir / cyd-destun**

O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 rhaid i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol yn egluro sut yr aethom ati i gwrdd â safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu
- Camau gweithredol i hyrwyddo safonau'r Gymraeg
- Hunan reoleiddio
- Gwaith datblygol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ein swyddogion ac yn ein gweinyddiaeth
- Adrodd ar berfformiad – data cwynion, cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

**6. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg)**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Y prif ystyriaeth cydraddoldeb yw hygyrchedd yr adroddiad blynyddol a'r angen i'w wneud ar gael i gynulleidfa eang (cynulleidfa sy'n cynnwys unigolion sy'n perthyn i'r grwpiau a warchodir dan Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae'n bwysig bod arddull yr adroddiad yn addas ac yn rhwydd i'w ddilyn.

Yn unol â'n harfer bydd yr adroddiad ar gael mewn fformatau eraill, yn cynnwys braille a sain, drwy gais. Mae hyn wedi ei nodi'n glir tu mewn i glawr y ddogfen. Bydd hefyd ar gael ar ffurf copi caled yn adeiladau'r Cyngor i unrhyw un sy'n gofyn amdano.

Mae gofal arbennig wedi ei gymryd i sicrhau bod yr adroddiad yn rhwydd i'w ddarllen, bod yr arddull a'r ieithwedd yn addas ac yn gynhwysol, a'i fod yn cwrdd â gofynion hygyrchedd digidol.

Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i greu ymwybyddiaeth o'r adroddiad, ei rannu â phartneriaid perthnasol a pharatoi deunyddiau hyrwyddo sy'n crynhoi'r prif negeseuon.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Amherthnasol. Nid yw cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg yn benderfyniad strategol.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Yn ogystal ag ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion y safonau, mae paratoi'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith trwy ein gwasanaethau cyhoeddus ac o fewn ein gweinyddiaeth. Gweler yr adroddiad am y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â gofynion y safonau a'n polisi iaith Gymraeg mae'r adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hyn wedi ei nodi'n glir yn y fersiwn Saesneg.

**7. Goblygiadau ariannol**

Amherthnasol.

**8. Atodiadau**

Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2023-24.

**9. Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Polisi Iaith Gymraeg
- Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg: Dogfen gyngor arferion da

# Adroddiad blynyddol y Gymraeg 2023-24

Sut aethom ati i gwrdd â'n dyletswyddau ac i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2024

# Adroddiad blynyddol y Gymraeg

**Trosolwg**
Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar safonau'r Gymraeg. Mae'n egluro sut aethom ati i:

- gydymffurfio â'r safonau,
- hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y cyfnod dan sylw.

Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Yn benodol safonau 158, 164 a 170.

Mae hefyd yn gweithredu fel adroddiad ar gynnydd yn erbyn nod ein polisi iaith (cymal 3.2.4) o sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith ein gweinyddiaeth fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**Mwy o wybodaeth**
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: Cymraeg@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026; Cynllun y Cyngor 2023-2028. I gyd ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys

Rhagair ... 1
Crynodeb gweithredol ... 2
Edrych yn ôl dros y flwyddyn ... 3
Gwasanaethau Cymraeg ... 5
Defnydd mewnol o'r Gymraeg ... 7
Edrych ymlaen ... 9
Atodiad 1: Data cwynion ... 11
Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio ... 13
Atodiad 3: Cefndir yr adroddiad ... 19

# Rhagair

Mae gan y Cyngor hwn draddodiad hir o gynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl Ynys Môn. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau breision tuag at wneud y Gymraeg yn brif iaith ein gweinyddiaeth. Mae ein defnydd mewnol o'r Gymraeg wedi datblygu dros amser mewn ffordd sy'n addas ar gyfer ein cyfer fel Cyngor. Rydym yn fwriadol wedi dewis gweithio'n raddol i ddod â phobl efo ni ac adeiladu ar falchder ac ewyllys da ein swyddogion, aelodau etholedig a'n trigolion tuag at yr iaith.

Mae sefydlu'r Gymraeg fel un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028 yn ddatblygiad pwysig sy'n adlewyrchu statws yr iaith o fewn ein gwaith â'n gweinyddiaeth. Nod yr amcan yw cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith. Mesur o lwyddiant eleni yw'r ffaith bod niferoedd ein staff sy'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg bron a bod wedi treblu. Mae'r cyrsiau'n amrywio o rai dwys lefel sylfaen i raglenni codi hyder. Braf yw gwybod bod gennym bellach dri dosbarth o ddysgwyr brwd sy'n cyfarfod yn rheolaidd a dymunwn y gorau wrth iddynt symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu.

Ynghyd â'n polisi recriwtio cadarn, mae cefnogi ein staff i fod yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau Cymraeg o safon. Testun balchder arbennig eleni oedd cael gwybod gan Gomisiynydd y Gymraeg ein bod wedi cyrraedd pob un o'r safonau iaith Gymraeg a arolygwyd gan y swyddfa. Hoffem ddiolch i'n swyddogion am eu gwaith caled i ennill y clod hwn.

Yn ogystal â chynnal gwasanaethau o safon mae gennym gyfrifoldeb i ddefnyddio ein dylanwad er gwell. Roedd eleni yn flwyddyn arall o gydweithio â'n partneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg. Braint oedd cael cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol yng Nghaerdydd a'r Eisteddfod Genedlaethol a thynnu sylw at y gwaith sy'n digwydd yma ym Môn i gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau.



**Cynghorydd Llinos Medi**
Arweinydd




**Cynghorydd Dafydd Roberts**
Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg



**Dylan J. Williams**
Prif Weithredwr

# Crynodeb gweithredol

**Pwrpas yr adroddiad**
Er mai dangos ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yw prif bwrpas yr adroddiad hwn, mae'n gyfle i ni adlewyrchu ar y flwyddyn ac ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae hefyd yn gyfle i gydnabod gwaith arbennig ein swyddogion sy'n cynnal ein safon uchel o wasanaethau Cymraeg. Dyma rai o'r llwyddiannau:




**Gair am ein gwasanaethau Cymraeg**
"Yn sgil yr holl waith casglu tystiolaeth anfonwn y llythyr hwn er mwyn llongyfarch y Cyngor ar gydymffurfiaeth lawn o'r safonau a arolygwyd."

**Comisiynydd y Gymraeg**

"Mae'r Gymraeg yn cael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth pobl a'r gymuned leol lle mae'r cartref [gofal] wedi'i leoli."

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

# Edrych yn ôl dros y flwyddyn

Gwelodd y cyfnod sawl datblygiad pwysig i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. A datblygu ein defnydd mewnol o'r iaith. Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r uchafbwyntiau.

## Statws i'r Gymraeg

Mae gwneud y Gymraeg yn amcan strategol yng nghynllun y Cyngor yn cadarnhau lle amlwg yr iaith yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae hefyd yn golygu y byddwn yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn yr amcan fel rhan o'n prosesau rheoli perfformiad.

Eleni, datblygodd Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg ddangosyddion newydd y byddwn, o'u cymeradwyo, yn adrodd ac yn craffu arnynt yn chwarterol yn ystod cyfnod y cynllun.

## Swyddogion yn dysgu a datblygu

Un o lwyddiannau mawr eleni yw'r cynnydd sylweddol yn niferoedd ein swyddogion sy'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg. Treblodd y niferoedd bron a bod, o 15 y llynedd i 43 eleni. Mae sawl rheswm dros y cynnydd hwn:

- Ewyllys da ymhlith ein swyddogion tuag at y Gymraeg ac awydd i gynyddu hyder
- Cefnogaeth rheolwyr llinell i rhyddhau swyddogion i fynychu hyfforddiant
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gan ein timoedd Dysgu a Datblygu a Polisi a'r Gymraeg
- Cydweithio gyda'n prif ddarparwr Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin

Diolch i raglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol rydym wedi gallu manteisio ar gefnogaeth ariannol i gynnal tri dosbarth dysgu Cymraeg. Dau ar lefel sylfaen ac un lefel canolradd yn cael eu cynnal gan ddau diwtor rhan amser.

I gefnogi ein dysgwyr, lansiom ddashfwrdd newydd ar ein platfform e-ddysgu – Y Gronfa Ddysgu – sy'n dwyn ynghyd pob math o adnoddau i'w helpu gyda'i gwaith.

## Cydymffurfio â gofynion iaith

Derbyniom lythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â'r holl safonau a arolygwyd gan y swyddfa eleni. Dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn llythyr o'r fath sy'n rhoi sicrwydd ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i bobl Ynys Môn.

## Hyrwyddo’r iaith yn lleol

Yn ogystal â darparu gwasanaethau, mae gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo’r Gymraeg o fewn a thu allan i’r Cyngor. I wneud hyn yn llwyddiannus mae’n rhaid i ni gydweithio ac arloesi.

Lansiom sawl ymgyrch eleni sy’n pontio gwasanaethau’r Cyngor ac yn dylanwadu’n uniongyrchol ar bobl yn ein cymunedau. Dau o'r rhain yw:

- Môn sy’n ystyriol o drawma; ac
- Ynys oed gyfeillgar

Mae’r rhaglenni gwaith hyn yn effeithio ar rai o'n trigolion fwyaf bregus, sef plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef profiadau eithriadol a phobl hŷn sy’n ddibynnol arnom am gefnogaeth. Gwyddom fod derbyn gwasanaethau iaith gyntaf yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant ac mae’r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog i’r gwaith.

Mae MônActif a’n gwasanaethau ieuenctid yn cynnal gweithgareddau dwyieithog rheolaidd sy’n creu cyfleoedd cyson i’n plant a’n pobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg. Bydd parhau i gydweithio efo’r Urdd yn flaenoriaeth wrth i ni edrych ymlaen at groesawu Eisteddfod yr Urdd yma yn 2026.

## Sylw cenedlaethol i’n gwaith

Cawson sawl gwahoddiad eleni i rannu gwybodaeth am ein harferion mewn digwyddiadau cenedlaethol. Cymerodd ein Rheolwr Polisi a’r Gymraeg ran mewn digwyddiadau a drefnwyd gan Archwilio Cymru yng Nghaerdydd a Llandudno. Pwrpas y sesiynau oedd dathlu sefydliadau sy’n gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcan llesiant cenedlaethol o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.

Mewn sgwrs banel wedi ei drefnu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol, tynnodd y rheolwr sylw at effaith ein strategaeth hybu’r Gymraeg a’r camau sydd wedi eu cymryd gennym i hyrwyddo’r iaith.

# Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r adran hon yn crynhoi camau i gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau a llunio polisi. Y safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn delio â phobl Ynys Môn. Ymysg pethau eraill, maent yn sôn am ddelio â phobl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ein cyhoeddiadau â'n presenoldeb ar-lein. O dan y safonau llunio polisi rhaid i ni hefyd ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg.

## Rheoli perfformiad

**Dangosyddion**
Datblygodd Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg ddangosyddion newydd fydd yn cael eu hadrodd yn chwarterol i'n byrddau moderneiddio fel rhan o brosesau rheoli perfformiad y sgôr fwrdd corfforaethol a'n dogfen gyflawni flynyddol. Gallwch ddarllen mwy am y prosesau hyn yng nghynllun y Cyngor.

**Hunan-asesu**
Fe wnaeth ein penaethiaid asesu cydymffurfiaeth eu gwasanaethau yn erbyn ein dyletswyddau iaith Gymraeg. Cafwyd sicrwydd cyffredinol bod gwasanaethau'n cwrdd â gofynion y safonau a'n polisi iaith. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gallu iaith Gymraeg ein swyddogion a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r gofynion.

Nodwyd rhai heriau, yn benodol trafferthion i recriwtio swyddogion cymwys i swyddi o natur arbenigol. Trafodwyd hefyd yr heriau o allanoli gwasanaethau i gwmnïau nad ydynt yn deall natur ddwyieithog ein gwaith. Mae cydweithio â chwmnïau preifat, sy'n bennaf yn darparu arbenigedd technegol, yn aml yn golygu ymdrech ychwanegol sylweddol i'n swyddogion i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gweithio'n ddwyieithog.

**Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**
Cyfarfu'r grŵp bedair gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried ein cynlluniau i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg. Ymhlith materion eraill, arweiniodd y trafodaethau at:

- ddatblygu dangosyddion iaith Gymraeg newydd,
- hyrwyddo fersiwn Gymraeg ffurflen gofrestru gwastraff gwrdd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar ein gwefan
- creu adnodd i helpu rheolwyr gefnogi staff sy'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg
- gwella cyfathrebu gydag aelodau etholedig am hyfforddiant ac adnoddau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg; a
- cynnal digwyddiad i lansio dashfwrdd iaith Gymraeg newydd ar y Gronfa Ddysgu

**Arfer effeithiol**
Mae esiamplau o arferion effeithiol gan wasanaethau sy'n mynd ati'n rhagweithiol i wella eu perfformiad eu hunain yn cynnwys:

Pob tudalen ar ein prif wefan yn nodi ein bod yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg a bod ein holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg

Siarter Craffu newydd yn pwyleisio asesu effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg

Llofnod e-bost y tîm Dysgu a Datblygu yn cynnwys linc at ein polisi iaith Gymraeg ar ein gwefan



Tîm Archwilio yn rhannu gair Cymraeg y dydd

Pencampwyr iaith Gymraeg Hamdden yn cyfarfod yn rheolaidd

**Cyfieithu**
Fel arfer, mae cefnogaeth y gwasanaeth Cyfieithu'n hanfodol er mwyn cwrdd â'n dyletswyddau o dan y safonau. Cyfieithodd y tîm dros **ddwy filiwn o eiriau** eleni a darparodd wasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn **255 o gyfarfodydd**.

| 2022-23 | | 2023-24 |
|---|---|---|
| 2,204,718 | - | 2,010,291 |
| Geiriau gyfieithwyd | | Geiriau gyfieithwyd |

## Gwirio uniongyrchol

**Arolygon cydymffurfiaeth**
Cynhaliodd ein Swyddog Hyrwyddo Polisi a'r Gymraeg arolygon siopwr cudd o'n gwasanaethau ffôn eleni wnaeth ganfod lefelau uchel o gydymffurfiaeth â gofynion y safonau a'n polisi iaith. Asesodd bod swyddogion yn cyfarch galwyr yn Gymraeg yn gyntaf ac a'r sgiliau oedd eu hangen i ddelio â galwadau yn Gymraeg.

## Deall profiadau defnyddwyr

**Cwynion**
Derbynion saith cwyn eleni oedd yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Pedair ohonynt yn ymwneud â safonau cyflenwi a thair am y safonau llunio polisi.

| 2022-23 | | 2023-24 |
|---|---|---|
| 4 | ↑ | 7 |
| Nifer y cwynion | | Nifer y cwynion |

Cafodd dau o'r cwynion eu cyflwyno i ni gan Gomisiynydd y Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd beidio ymchwilio i un ohonynt ac, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn rydym yn disgwyl penderfyniad mewn perthynas â'r ail gŵyn.

Gallwch weld manylion y cwynion yr atodiadau.

# Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn crynhoi camau i annog defnyddio'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith. Mae hefyd yn egluro sut yr ydym yn mynd ati i weithio tuag at gyflawni'r nod canlynol yn ein polisi iaith Gymraeg:

**Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig.** Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y polisi iaith Gymraeg.

**Cymal 3.2.4**

## Rheoli perfformiad

**Recriwtio**
Ers mabwysiadu ein polisi iaith Gymraeg yn 2016, rydym wedi cymryd camau breision tuag at gyflawni'n nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith ein gweinyddiaeth fewnol. Hyn yn bennaf o ganlyniad i gadernid ein **polisi recriwtio a dethol**.

Ers cyflwyno canllawiau ar ddynodi lefelau sgiliau iaith 2019, mae elfen o allu yn y Gymraeg yn gysylltiedig â phob swydd a hysbysebir gennym. Mae'r canllawiau wedi llwyddo i osod disgwyliadau clir ar reolwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Dim ond yn dilyn methiant i benodi a derbyn cydsyniad ein **panel recriwtio** y caniateir newid gofynion iaith swydd.

**Ni hysbysebom unrhyw swyddi â sgiliau Cymraeg dymunol eto eleni**. Ers 2019, dim ond ar bedwar achlysur yr ydym wedi hysbysebu swyddi o'r natur hon. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod gan bron pob aelod newydd o staff elfen o allu yn y Gymraeg. Teg yw cydnabod bod mabwysiadu'r polisi hwn yn lleihau'r farchnad o ymgeiswyr cymwys am swyddi efo ni. Ond, credwn fod hwn yn gam sylfaenol bwysig sy'n dangos ymrwymiad pendant i gwrdd â nod ein polisi iaith.

Fel y llynedd, roedd mwyafrif y swyddi a hysbysebwyd gennym yn gofyn am y lefel uchaf o sgiliau yn y Gymraeg, sef lefel pump yn ôl ein fframwaith sgiliau iaith (ar gael yn atodiad dau). Roedd llai na chwarter yr holl swyddi yn gofyn am sgiliau lefel un a dau. Golyga hyn bod mwyafrif helaeth y swyddi yn gofyn am ymgeiswyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel tri ac uwch, sef lefel canolradd yn ôl y fframwaith.

Croesawom **129** aelod newydd o staff yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd bob un ohonynt gyflwyniad ar ofynion y safonau cyflenwi gwasanaethau fel rhan o'u hanwythiad. Roedd cyfarfod â chydweithwyr newydd hefyd yn gyfle i'r tîm Polisi a'r Gymraeg rannu adnoddau iaith gwaith, sef bathodyn, llofnod e-bost a chefndir cyfarfod rithiol i ddangos i eraill eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

**Ymchwil rhanbarthol**
Fel aelod blaengar o is-grŵp iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn, cawsom gyfle eleni i arwain gwaith ymchwil arloesol i'r maes recriwtio. Bwriad y prosiect – fydd yn adrodd ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2024 [DS1]– yw helpu sefydliadau recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg trwy leihau unrhyw rwystrau i ymgeiswyr.

Mae nifer o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru wedi cymryd rhan yn y gwaith a gobeithiwn y gall eraill ddysgu o rai o'n harferion recriwtio ni.

**Modelu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg**
Cawsom gyfle arbennig eleni i fod yn rhan o brosiect cydweithio dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg. Nod y prosiect yw adnabod gwahanol fodelau o weinyddu yn Gymraeg er mwyn gallu rhannu arfer ddau gyda sefydliadau eraill sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg.

Prif bartneriaid eraill y prosiect yw Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr a Chyfoeth Naturiol Cymru[DS2]. Cawsom gyfle i rannu gwybodaeth am ein defnydd mewnol o'r iaith fydd, yn y pen draw, yn cael ei rannu â sefydliadau eraill sydd eisiau gwneud y Gymraeg yn brif iaith fel esiampl i'w efelychu.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y prosiect – sydd hefyd yn cynnwys partneriaid ymgynghorol fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Dysgu Cymraeg – y flwyddyn nesaf a gobeithiwn y bydd y gwaith o ddefnydd wrth i ni adolygu ein polisi iaith Gymraeg.

## Deall profiadau defnyddwyr


**Data hyfforddiant**
Manteisiodd 43 o swyddogion ar gyrsiau dysgu Cymraeg eleni, sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â llynedd. Roedd y cyrsiau'n amrywio o rai lefel mynediad i lefel uwch ac yn cael eu cynnig ar-lein, mewn dosbarth neu gyfuniad o'r ddau gyfrwng. Mynychodd un swyddog gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

| 2022-23 | | 2023-24 |
|---|---|---|
| 15 | | 43 |
| Cyrsiau dysgu Cymraeg | - | Cyrsiau dysgu Cymraeg |

I gefnogi swyddogion sy'n dysgu neu am roi sglein ar eu sgiliau Cymraeg, creodd y tîm Dysgu a Datblygu ddashfwrdd newydd. Y nod yw dwyn ynghyd yr holl adnoddau sydd ar gael i helpu swyddogion mewn un man hwylus. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyrsiau, cymorth sillafu, tips i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith a llawer mwy.

# Edrych ymlaen

Dyma gipolwg ar rai o’r datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod:




Mae’n debyg mai prif lwyddiant eleni oedd y cynnydd aruthrol yn y niferoedd yn dysgu a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Yn ôl data o sgyrsiau blynyddol cydweithwyr gyda’i rheolwyr, gwyddom fod diddordeb mewn hyfforddiant yn parhau i dyfu. Byddwn yn adeiladu ar ein perthynas gyda thiwtoriaid Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i wneud yn siŵr bod cyrsiau addas yn cael eu hadnabod i ddysgwyr newydd, a bod ein dysgwyr presennol yn cael eu cefnogi yng ngham nesaf eu cyrsiau.

Byddwn yn parhau i roi sylw i’n defnydd mewnol o Gymraeg trwy gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ar brosiect i sefydlu modelau gweinyddu y gall sefydliadau eraill ddysgu ohonynt. Gobeithiwn y bydd y prosiect hwn nid yn unig yn gyfle i rannu ein harferion da ag eraill, ond yn helpu ni i ddatblygu ein hunain ymhellach.

Rydym yn bwriadu adolygu ein polisi iaith Gymraeg i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu’r cynnydd yn ein defnydd mewnol o'r Gymraeg yn cynnwys uchelgais amcan strategol y Gymraeg yng nghynllun y Cyngor.[DS3] Bydd ein Porth Polisi

newydd yn ein helpu i wneud yn siŵr bod staff yn ymwybodol ac yn deall disgwyliadau'r polisi.

Fel y llynedd byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ddylanwadu ar eraill a rhannu gwybodaeth am ein harferion. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan yng nghynhadledd flynyddol Comisiynwyr Iaith y byd yng Nghaerdydd. Yn lleol, byddwn yn rhoi sylw i'n cynghorau tref a chymunedau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn derbyn cefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Mehefin 2024**

# Atodiad 1: Data cwynion

Dyma fanylion y cwynion gafodd eu gwneud i ni dros y flwyddyn am ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r ddau dabl cyntaf yn cynnwys manylion cwynion sy'n cwrdd â diffiniad ein gweithdrefn gwynion, sef cwynion gan bobl a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau.

Mae'r trydydd tabl yn cynnwys manylion cwynion 'eraill' neu sylwadau gan bobl yn nodi consyrn ond na effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Mae hefyd yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â'n defnydd o'r Gymraeg ond nad ydynt yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

**Tabl 1: Cwynion yn ôl dosbarth o safonau**

| Dosbarth safonau | Nifer |
|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | 4 |
| Llunio polisi | 3 |
| Gweithredu | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** |

**Tabl 2: Manylion cwynion**

| Cwyn | Dosbarth safonau | Manylion |
|---|---|---|
| 2023/24-01 | Llunio polisi | Defnydd o ddarparwr wedi ei leoli tu allan i Gymraeg i ymdrin â ffurflenni treth Cyngor |
| 2023/24-02 | Llunio polisi | Methiant honedig i asesu effaith cais cynllunio ar y Gymraeg (gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg) |
| 2023/24-03 | Cyflenwi gwasanaethau | Defnydd o enwau lleoedd Saesneg ar restr Cymraeg o leoliadau biniau tymhorol |
| 2023/24-04 | Cyflenwi gwasanaethau | Arwydd dros dro ar draeth yn arddangos testun Saesneg uwchben y Gymraeg |
| 2023/24-05 | Cyflenwi gwasanaethau | Diffyg defnydd honedig o'r Gymraeg mewn gwers nofio |
| 2022/23-06 | Llunio polisi | Diffyg defnydd o'r Gymraeg gan gwmni a honnwyd i fod wedi derbyn arian grant |
| 2022/23-07 | Cyflenwi gwasanaethau | Llythyr uniaith Saesneg ynglŷn â'r gofrestr etholiadol (gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg |

**Tabl 3: Cwynion eraill**

| Rhif | Sylw |
|---|---|
| 1 | Arwydd preifat Saesneg |
| 2 | Arwydd preifat Saesneg |
| 3 | Arwydd preifat Saesneg |
| 4 | Arwydd ffordd (nid o eiddo’r Cyngor) yn dangos enw lle answyddogol |

# Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Dyma wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ein swyddogion. Rydym wedi categoreiddio’r wybodaeth i gyd-fynd â diffiniadau ein fframwaith sgiliau iaith sy’n pennu gwahanol lefel o allu yn y Gymraeg:

### Lefel 0: Ymwybyddiaeth

- Dim sgiliau

### Lefel 1: Mynediad

- Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)
- Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol
- Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, fel arwyddion neu nodiadau byr a syml
- Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol

### Lefel 2: Sylfaen

- Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol
- Yn gallu darllen deunydd syml sy’n ymwneud â’r gwaith (yn araf)
- Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth

### Lefel 3: Canolradd

- Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
- Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy’n ymwneud â’r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl
- Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
- Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol


### Lefel 4: Uwch

- Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
- Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy’n ymwneud â’r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp
- Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun
- Yn gallu paratoi’r rhan fwyaf o’r deunydd ysgrifenedig sy’n gysylltiedig â’r maes, gyda pheth cymorth gwirio

### Lefel 5: Medrus

- Yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen
- Yn gallu deall pob sgwrs sy’n ymwneud â’r gwaith
- Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy’n ymwneud â’r gwaith
- yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

## Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth




**Tîm Arweinyddiaeth (yn cynnwys prif weithredwr, dirprwy, cyfarwyddwyr a chynorthwywyr personol)**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 9
Nifer y dychweliadau: 9
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |

**Adnoddau**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 94
Nifer y dychweliadau: 94
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 4 | 5 | 6 | 8 | 70 |
| Canran | 1% | 4% | 5% | 6% | 9% | 74% |

**Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 93
Nifer y dychweliadau: 93
Canran dychweliadau: 90%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 6 | 3 | 1 | 4 | 13 | 66 |
| Canran | 6% | 3% | 1% | 4% | 14% | 71% |

**Busnes y Cyngor**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 38
Nifer y dychweliadau: 38
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 | 34 |
| Canran | 0% | 3% | 0% | 5% | 3% | 89% |

**Dysgu**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 76
Nifer y dychweliadau: 76
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 2 | 4 | 10 | 59 |
| Canran | 0% | 1% | 3% | 5% | 13% | 78% |

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 715
Nifer y dychweliadau: 715
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 28 | 45 | 53 | 56 | 110 | 423 |
| Canran | 4% | 6% | 7% | 8% | 15% | 59% |

**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 316
Nifer y dychweliadau: 316
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 19 | 31 | 22 | 15 | 31 | 198 |
| Canran | 6% | 10% | 7% | 5% | 10% | 63% |


**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 320
Nifer y dychweliadau: 320
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 6 | 23 | 15 | 29 | 48 | 199 |
| Canran | 2% | 7% | 5% | 9% | 15% | 62% [DS4] |

**Tai**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 175
Nifer y dychweliadau: 175
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 4 | 6 | 9 | 10 | 24 | 122 |
| Canran | 2% | 3% | 5% | 6% | 14% | 70% |

Sgiliau Cymraeg fesul gradd gyflog




**Graddau 1-5**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1369
Nifer y dychweliadau: 1369
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 56 | 96 | 89 | 109 | 177 | 842 |
| Canran | 4% | 7% | 7% | 8% | 13% | 62% |

**Graddau 6-10**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 456
Nifer y dychweliadau: 456
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 9 | 18 | 20 | 16 | 67 | 326 |
| Canran | 2% | 4% | 4% | 4% | 15% | 71% |
| | | | | | | |

**Prif swyddogion**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 15
Nifer y dychweliadau: 15
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 13 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 7% | 7% | 87% |

## Hyfforddiant

**Hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg**
Dyma fanylion y niferoedd a dderbyniodd hyfforddiant i hybu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

| Cymhwyster | Nifer |
|---|---|
| Mynediad | 14 |
| Sylfaen | 13 |
| Canolradd | 8 |
| Lefel uwch | 5 |
| Codi hyder | 3 |
| **Cyfanswm** | **43** |

**Iaith cyrsiau hyfforddi**
Ein nod yw dynodi a chadw cofnod o gyfrwng iaith pob un o'n sesiynau hyfforddi mewnol. Mae'n bwysig nodi nad yw dewisiadau cofnodi ein system Adnoddau Dynol yn ddelfrydol ar gyfer casglu data o'r fath – er mae addasiadau yn cael eu gwneud â llaw i sicrhau fod y data mor gyfredol â phosib – wrth ystyried y ffigyrau isod.

O ran y cyrsiau a ddynodir fel rhai 'dwyieithog', gall hyn olygu fod un ai'r hyfforddwr yn gallu cyflwyno'r sesiwn yn ddwyieithog neu fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Yn hynny o beth mae'n golygu fod swyddogion yn gallu holi/ateb cwestiynau yn eu dewis iaith.

Mae'r tabl isod yn ystyried hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnig yn fewnol dros y flwyddyn, ac yn dangos y nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a Dwyieithog yn ystod y flwyddyn.

| | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn Gymraeg | 640 | 236 |
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn ddwyieithog | 349 | 554 |
| Canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg | **55%** | **30%** |

Mae'n amlwg o'r ffigurau uchod bod nifer y staff sydd fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi gostwng ers 2022-2023, ond mae nifer y staff fynychodd hyfforddiant dwyieithog wedi cynyddu. Gallai hyn fod oherwydd bod angen i ni sicrhau bod arian yn cael ei wario'n fwy effeithiol a chynnig mwy o sesiynau dwyieithog.

## Categoreiddio swyddi

Yn 2019 cyhoeddom ganllawiau yn gosod allan lefel isafswm o sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer gwahanol fathau o swyddi. Er ein bod yn parhau i gategoreiddio swyddi yn unol â gofynion y safonau, anaml ystyriwn sgiliau iaith Cymraeg yn ddymunol. Yn hytrach, mae elfen o sgiliau yn y Gymraeg yn perthyn i bob swydd sy'n gymesur â natur y rôl.

Dyma fanylion y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn yn ôl eu gofynion sgiliau iaith Gymraeg.

| | Nifer |
|---|---|
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1 | 60 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2 | 15 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3 | 261 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4 | 85 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5 | 192 |
| Swyddi lle bod lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | 0 |

# Atodiad 3: Cefndir yr adroddiad

1. **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd arnom i gwrdd â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau'n egluro sut mae disgwyl i ni ddefnyddio neu ystyried yr iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Egwyddorion sylfaenol y safonau yw:


    - na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
    - y dylem hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r iaith.

2. Derbyniom **hysbysiad cydymffurfio** gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Dyma'r ddogfen sy'n nodi'r union safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae **160 o safonau** i gyd wedi eu gosod arnom. Gallwch weld eu manylion, a darllen mwy am ein trefniadau i gwrdd â nhw, ar ein gwefan.

3. Ein **polisi iaith Gymraeg** sy'n egluro sut y byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y safonau. Cafodd ei fabwysiadau'n fuan wedi i'r safonau ddod i rym yn 2016. Mae'n dilyn yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu defnydd o'r iaith oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor.

4. Ochr yn ochr â'n polisi iaith a'r safonau eu hunain, rydym yn cyhoeddi **adroddiad blynyddol** sy'n disgrifio sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys data penodol y mae'n rhaid i ni adrodd arno'n flynyddol am gwynion, sgiliau Cymraeg ein swyddogion, hyfforddiant a swyddi a hysbysebwyd gennym. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn llawn yn yr atodiadau.

5. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan ein Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy a'n cyfarwyddwyr. Craffwyd arno'n ffurfiol gan ein Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) a caiff ei gefnogi gan ein Pwyllgor Gwaith. Cafodd ei gymeradwyo'n derfynol gan yr aelod portffolio perthnasol.




Ein Rheolwr Polisi a'r Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dydd i ddydd am y safonau ac am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y Prif Weithredwr yw'r aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith. Mae gennym hefyd aelod portffolio sy'n cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg ar y Pwyllgor Gwaith. Mae Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion allweddol, yn cadw trosolwg dros ein defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i hybu'r iaith ym mhob agwedd o'n gwaith.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19.06.24** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg: 2022-2032 Adroddiad ar y Cynnydd [2023/2024]** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Darparu diweddariad blynyddol ar gynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg CSGA-ar gyfer y flwyddyn 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cynghorydd Dafydd Roberts, Deilydd Portfolio Addysg a Gymraeg** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Berw Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Owen Davies Uwch Rheolwr Sector Cynradd**<br>**owendavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Dderbyn diweddariad ar ddata **2023-2024** Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg [CSGA] Ynys Môn |

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae yna gysylltiad uniongyrchol gyda nodau ac amcanion Cynllun y Cyngor 2023-2028:

**1. Corfforaethol**

- Y Gymraeg - Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**2. Gwasanaeth Dysgu**

- Addysg - Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. I ba raddau mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar drac ac yn debygol o gyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig?
2. Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau dilyniant ieithyddol a chydraddoldeb ar draws Ynys Môn?
3. I ba raddau mae gwasanaeth y Ganolfan Iaith yn ymateb i anghenion ar gyfer troci ar Ynys Môn?
4. Mae'r adroddiad cynnydd yn trafod heriau ariannol yn wynebu'r Awdurdod Lleol. Pa risgiau ac heriau mae'r Cyngor yn ceisio eu lliniaru?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**DIWEDDARIAD CYNLLUN STARTEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG [CSGA] 2023-2024**

Mae data CSGA (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) yn adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg yn Ynys Môn dros gyfnod 06/23 - 06/24.

- Mae adroddiad 2024 yn nodi **sefydlogrwydd deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6**.
- **Gostyngiad** eleni yn Neilliant 4 (2022 (68%) 2023 (70.44%) 2024 (68.46%)).
- **Twf** eleni yn Neilliant 7 (2022 (89%) 2023 (90.57%) 2024 (93.36%)).

Mae copi o Ddangosfwrdd Data CSGA: 2023/24 ynghlwm **[Atodiad 1]**

**1. Diweddariad Categoreiddio**

Statws categorïau ysgolion Ynys Môn 2023-2024:

| | **Categori 1** (Cyfrwng Saesneg) | **Categori 2** (Dwyieithog) | **Categori Trosiannol 3** (T3) | **Categori 3** (Cyfwng Cymraeg) |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | | **1** | | **39** |
| Uwchradd | | | **1** | **4** |

Dros y flwyddyn hon, mae ysgolion wedi derbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu, y canolfannau iaith, Siarter Iaith a GwE i sicrhau darpariaeth safonol sy'n adlewyrchu categorïau ysgolion ac anghenion plant y sir.

Mae Grŵp Prosiect CSGA wedi'i sefydlu i gefnogi Ysgol Uwchradd Caergybi i symud tuag at Gategori 3 o fewn pum mlynedd. Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi hwyluso gwaith y Grŵp gyda llywodraethwyr yr ysgol, aelodau uwch dîm ac addysgu, gan hefyd gynnwys Cydlynydd Iaith y dalgylch. Mae uwch dîm y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn rhan o'r Grŵp i sicrhau effeithiolrwydd partneriaeth i gefnogi aelodau staff ar eu continwwm ieithyddol.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi datblygu ap Cynllun y Llan ar gyfer y canolfannau iaith. Cafodd yr ap ei lansio ar 03.06.24 ac yn cynnwys adnoddau trochi safonol ar gyfer defnydd digidol o Gynllun y Llan.

**2. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd**

**HMS**

- Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n cydweithio â rhanddeiliaid i gynnig hyfforddiant a sesiynau i gefnogi gwelliant a chynnydd yn seiliedig ar flaenoriaethau ysgolion a lleoliadau nas-gynhelir. Er enghraifft:

**Y sector nas-gynhelir a'r blynyddoedd cynnar**

- Mae rhaglen Makaton a 'Taith yr Iaith' y blynyddoedd cynnar yn datblygu'n dda gyda 22 o leoliadau wedi derbyn gwobr Efydd yn Ebrill a 11 o leoliadau am dderbyn gwobr Arian.
- Mae lleoliadau nas-cynhelir yn derbyn arian grant yn seiliedig ar ddarpariaeth addysg gan gynnwys safon a phrofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r tîm cefnogi blynyddoedd cynnar yn cefnogi ac yn monitro ansawdd darpariaeth addysg lleoliadau.

**Sector Cynradd ac Uwchradd**
**<u>Carfannau Iaith</u>**
Mae system Carfannau Iaith (drwy system SIMS ysgol) yn cael ei defnyddio fel prif arddull o fonitro ieithwedd ysgolion. Ymhen amser bydd y fframwaith hwn yn esblygu ochr yn ochr â datblygiadau CEFR (*Common European Framework of Reference for Languages*).

- Bydd y system hon yn cael ei diweddaru eto eleni ar gyfer 23-24.
- Mae canllaw trosglwyddo gwybodaeth carfannau iaith Bl. 6 yn golygu fod pob ysgol wedi cael arweiniad, cymorth a chefnogaeth i adrodd ar garfan iaith pob plentyn ym mlwyddyn 6. Bydd yr wybodaeth hon yn bwydo i gydlynwyr iaith dalgylchoedd ac ysgolion i sicrhau fod plant sydd i fod i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn dilyn y llwybr hwn.

**<u>Canolfan Iaith</u>**

- Mae canolfannau iaith Môn yn hanfodol i sicrhau fod newydd-ddyfodiaid yn derbyn ymyrraeth drochi'n amserol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio arian Grant Trochi 2 (cylch 2022-2025).
- Eleni mae **96** o ddisgyblion cynradd wedi cael eu trochi, **150** wedi derbyn ôl-ofal a defnyddio pecyn Google Classroom.
- Mae defnydd o'r Grant Trochi'n golygu ein bod yn dal i gyflogi 6 aelod yn y ganolfan. Bydd cytundebau 2 ohonynt yn dirwyn i ben Mawrth 31 2025.

- Mae'r ganolfan wedi arwain ar gyfarfod cenedlaethol canolfannau trochi (Ebrill 24) a hwyluso adnoddau a rhwydweithiau cefnogol.
- O fis Medi 24, bydd 1 aelod o'r ganolfan yn barhaus ar safle Ysgol Uwchradd Caergybi yn strategol fel rhan o gefnogaeth cynllun trosiannol Categori T3 i Gategori 3.

**Siarter Iaith**

- Mae mwyafrif helaeth o'r ysgolion wedi cwblhau holiaduron Siarter Iaith tymor yr hydref.
- Rhai ysgolion wedi manteisio ar y cynnig o gael gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth ac yn diweddaru disgyblion am y Siarter Iaith: Ysgol Pencarnisiog, Ysgol Llandegfan, Ysgol y Borth, Ysgol Henblas.
- Nifer fawr o'r ysgolion yn dathlu digwyddiadau fel Diwrnod Shwmae, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru.
- Swyddog Siarter Iaith wedi bod yn rhoi sesiwn gemau buarth mewn rhai dalgylchoedd: Ysgol Amlwch, Ysgol Goronwy Owen, Ysgol Rhosybol, Ysgol Penysarn, Ysgol Cemaes, Ysgol Llanfechell, Ysgol Biwmares, Ysgol Parc y Bont, Ysgol Llanerchymedd, Ysgol Bryngwran, Ysgol y Ffridd.
- Cydlynwyr wedi bod yn brysur yn cynllunio a pharatoi tuag at brosiectau Grant y Gymraeg ac effaith hyn ar hyder wedi'i nodi a'i chyflwyno i Fforwm Iaith a Phwyllgor Uwch Dîm y Cyngor.

**Mynediad**

Mae llwyddiant categoreiddio a'r system carfannau iaith wedi golygu bod mwy o ddisgyblion dalgylch Caergybi'n dymuno mynychu ysgol Categori 3. Er i'r symudiad hwn fod yn un cadarnhaol o ran rhieni'n dymuno addysg gyfrwng Gymraeg (ac aros ar yr ynys ar gyfer addysg uwchradd eu plant), mae wedi golygu fod y Gwasanaeth Dysgu wedi gorfod mynd drwy broses frys o sicrhau lleoliad i'r disgyblion eleni.

Er mwyn cefnogi'r gyfundrefn, mae cynnig yn seiliedig ar lefydd gweigion yn bwysig ond hefyd bydd y gwasanaeth yn gweithio'n agos ag Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern i sicrhau addysg Categori 3 yn Ysgol Uwchradd Bodedern a chynllun unigryw i Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys creu ffrwd Categori 3 ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi 2024. Erbyn 2029 bydd gan bob blwyddyn (Bl. 7 i Fl. 13) ffrwd Categori 3.  O fis Medi 2024, bydd aelod o'r Ganolfan Iaith yn trochi grwpiau o blant yn yr ysgol, fel bod y nifer o blant sy'n eistedd TGAU iaith gyntaf yn cynyddu'n flynyddol.

**Ein dyhead a'n cynllun yw bod Ysgol Uwchradd Caergybi'n cyrraedd statws Categori 3 mewn 5 mlynedd. Bydd hyn yn golygu fod pob disgybl yn medru trosglwyddo o ysgol gynradd Categori 3 i ysgol uwchradd Categori 3.**

**3. Cydweithio â Phartneriaid**

- **Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol** yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Dysgu i sicrhau fod y gweithle addysg yn derbyn cyfleoedd ac arweiniad clir ar sgiliau addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn** yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Dysgu i sicrhau fod profiadau ysgolion cynradd yn cael eu cynnal drwy'r Gymraeg a bod prosiectau uwchradd yn cefnogi cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n buddsoddi i gynyddu'r nifer o blant sy'n dewis TGAU Cerdd drwy dalu am wersi pob plentyn sy'n dewis Cerdd TGAU. Effaith hyn yw twf yn y nifer sydd wedi dewis Cerdd rhwng 2023 a 2025 (e.e., niferoedd Llangefni wedi tyfu o 6 i 22 disgybl). Mae'r Grant Cerdd yn caniatáu'r gallu i wneud hyn nes 2025-2026.

**4. Edrych ar unrhyw risgiau**

- Mae heriau ariannol yn risg i strategaeth drochi'r ynys megis:
    - Grant Trochi Cenedlaethol yn dod i ben Mawrth 31 2025 - colli 2 aelod o staff.
    - Newidiadau cenedlaethol i grantiau LAEG - dyraniad y Gymraeg i Awdurdod Lleol Ynys Môn yn llai o 2024 ymlaen ac wedi'i gywasgu i mewn i un grant.
    - Cyllid trafnidiaeth yn gynyddol heriol.
    - Llwyddiant ieithyddol ar draws yr ysgolion cynradd yn creu sefyllfa lle nad yw ysgol uwchradd yn ymateb i anghenion Categori 3 mewn rhai ysgolion.
    - Toriadau cyllidol i ysgolion yn golygu llai o staff i sicrhau ymyrraeth trochi ddigonol i ddisgyblion.

**5. Camau nesaf 2024-2025**

- Sicrhau fod y Gwasanaeth Dysgu'n cwblhau ac yn adrodd ar ein CSGA ym mis Gorffennaf 2024.
- Diwygio dogfen CSGA Ynys Môn er mwyn diweddaru'n seiliedig ar sefyllfa a datblygiadau cyfredol.
- Sicrhau bod canolfannau iaith yn weithredol ac yn addas at anghenion yr ynys.
- Buddsoddi mewn technoleg a sicrhau bod hyfforddiant trochi ar gyfer pob HMS yn cynnwys addysgeg trochi ac yn ymateb i flaenoriaethau ysgolion.
- Hunan-arfarnu prosesau a threfniadau mynediad ar gyfer 2024-2025. Diwygio dogfennaeth ar gyfer rhieni a threfniadau ysgolion.
- Ail-gydio yn system wobrwyo'r Siarter Iaith (lansiad y Siarter Iaith newydd yn Eisteddfod Meifod) a gweithredu ar draws y sector addysg.
- Sicrhau fod ysgolion yn cynnwys CSGA yn eu CDY, yn ei ddiweddaru'n flynyddol ac yn adrodd ar y cynllun i'r corff llywodraethol.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar:**

- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r strategaeth yn sicrhau cydraddoldeb o safbwynt mynediad a darpariaeth ar gyfer yr iaith yn hafal ar draws yr ynys. Mae'r cynlluniau'n cefnogi ardaloedd sydd wedi eu hadnabod fel ardaloedd sydd angen mwy o gefnogaeth.

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

**Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar:**

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

**Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar:**

- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

Mae'r strategaeth yn cydnabod ardaloedd sydd angen mwy o gefnogaeth ond ar yr un llaw yn sicrhau fod systemau a disgwyliadau uchel ar draws yr ynys.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Mae'r strategaeth yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n alinio i sicrhau eglurder ar ddyhead ac ymrwymiad y Cyngor i filiwn o siaradwyr 2050. Bydd ail-gategoreiddio ysgolion yn sicrhau dealltwriaeth a statws Ynys Môn fel un o gadarnleoedd yr iaith a disgwyliadau rhieni o ran darpariaeth addysg ar draws yr ynys.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n defnyddio arian i gefnogi canolfannau iaith ac yn defnyddio arian Grant Trochi i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Os bydd newid i'r grant ar ôl 2025, bydd risg i'r ddarpariaeth hon.

Angen ystyried costau cynyddol trafnidiaeth (tacsis) ac ail-ymweld â'r syniad o brynu bws mini trydanol sy'n torri costau yn yr hirdymor ac yn arddangos ymrwymiad y Cyngor i fod yn garbon-niwtral.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi gofyn am ddyraniad ychwanegol o'r Grant Trochi er mwyn recriwtio Anogwr y Gymraeg i Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Syr Thomas Jones i gefnogi staff (datblygu a/neu ddysgu'r iaith os oes rhaid) gyda sgiliau iaith, ethos Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth a chynnal canolfan trochi fwy dwys yn y ddwy ysgol. Os bydd y cais yn aflwyddiannus bydd angen ystyried ffynonellau cyllidol eraill.

**8 – Atodiadau**

- Dangosfwrdd Data CSGA 2023-2024 **[Atodiad 1]**

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

N/A

Y Gymraeg mewn Addysg

English

Blwyddyn

- 2021-2022
- 2022-2023
- 2023-2024



Y Gymraeg Mewn Addysg

Y Gymraeg Mewn Addysg

## Deilliant 1

Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

| | Cylchoedd Meithrin | EYW | Ysgolion Gynradd | Ysgolion Sefydledig | Ysgolion Babyddol dan Gymorth Gwirfoddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 32 | 4 | 37 | 1 | 1 |
| % yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

## Deilliant 2

Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Nifer o Ddalgylchoedd: 5

% yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf: 100.00%

Nifer o Sefydliadau Addysg Gynradd: 39

% yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg: 100.00%

Plant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy Gymraeg: 673

% yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg: 100.00%

## Deilliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Niferoedd y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Anstatudol**

→

Y Gymraeg mewn Addysg

English

Tudalen 40

Y Gymraeg Mewn Addysg

**Y Gymraeg Mewn Addysg**

## Deilliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

| Blwyddyn | Nifer o Ddysgwyr | % |
|---|---|---|
| 2021-2022 | 429 | 68.10% |
| 2022-2023 | 448 | 70.44% ↑ |
| 2023-2024 | 419 | 68.46% ↓ |

## Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanil yn yr ysgol

**Ar Trac**

## Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

% o ddisgyblion cynradd / uwchradd sydd yn derbyn gwasanaeth yn gwbwl ddwyieithog

**100.00%**

## Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

| Blwyddyn | Nifer o Staff | % |
|---|---|---|
| 2021-2022 | 503 | 89.03% |
| 2022-2023 | 528 | 90.57% ↑ |
| 2023-2024 | 534 | 93.36% ↑ |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Mehefin, 2024** |
| **Pwnc:** | **Enwebiad Pwyllgor – Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu un Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams, Dirprwy Arweinydd a Chyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio enwebu un Aelod Etholedig o blith y Pwyllgor Sgriwtini i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Cyllid**. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Amherthnasol |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Amherthnasol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o banelau sydd angen cynrychiolaeth Aelod Sgriwtini mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2022. Cytunwyd ar enwebiadau ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn trafod aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Panel ynghlwm (**Atodiad 1**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

2. **Trafodaeth**

2.1 **Aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid**

Nid yw aelodaeth y panelau'n ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]. Mae aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 3 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini[2]
- **Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid** – fel sylwedydd heb bleidlais
- **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyllid, Rheolwr Sgriwtini.

2.2 **Aelodaeth Gyfredol y Panel Sgriwtini Cyllid**

Yn sgil ystyriaeth gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin 2022[3], mae aelodaeth gyfredol y Panel fel a ganlyn:

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (3 Aelod)**
  i. Cyng Geraint ap Bebb (cadair)
  ii. Cyng Dyfed Wyn Jones
  iii. Cyng Ieuan Williams

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (3 Aelod)**
  i. Cyng Dylan Rees (is-gadair)
  ii. Cyng Ken Taylor
  iii. Cyng Paul Ellis.

**2.3** Mae un sedd wag wedi codi ar y Panel Sgriwtini Cyllid o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cynghorydd Paul Ellis. Daw'r sedd wag hon o blith yr

---

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

[3] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 21 Mehefin, 2022

Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar y Panel.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amherthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Cyllid |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Mehefin, 2024** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2024/25<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2024

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024/25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI Mai, 2024 → Ebrill, 2025
**[Fersiwn dyddiedig 04/06/24]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2023/24 |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2024 | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor – adroddiad terfynol | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (12/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (17/09/24) - Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Medrwn Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) - Addysg** |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (i’w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 | Menter Môn |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (14/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| Cynllun Strategol Môn Actif (i’w gadarnhau) | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| | |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (04/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |



**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Strategol Coed | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cynllun Strategol Caffael | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2024/2045 (Mehefin, 2025) |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) |
| | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol (Mawrth 2026) |